OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 2747 (Cy.245)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Powys (Cymunedau Aberhonddu a Llanfrynach) 2004

Wedi'i wneud - - 13 Hydref 2004

Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1(2)

Mae Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, ac yntau wedi cyflwyno adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), dyddiedig Rhagfyr 2003, ynghylch adolygiad Cyngor Sir Powys o'r ffin rhwng Cymunedau Aberhonddu a Llanfrynach yn Sir Powys, ynghyd â'r cynigion a ffurfiwyd gan y Comisiwn;

A Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi penderfynu gwneud y cynigion yn effeithiol heb eu haddasu;

A chan fod mwy na chwech wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

Yn awr, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a Chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Powys (Cymunedau Aberhonddu a Llanfrynach) 2004.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2004, sef y diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau, ag eithrio bod y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2004 at y dibenion a nodir yn rheoliad 4(1) o Reoliadau 1976.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn —

(**1**) 1972 (p.70).
(**2**) (O.S. 1999/672).

ystyr "y map ffiniau" ("*the boundary map*") yw'r map a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac sydd wedi'i farcio "Map Ffiniau Gorchymyn Powys (Cymunedau Aberhonddu a Llanfrynach) 2004" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 fel y'u diwygiwyd(**3**).

Newid i ardal gymunedol a newid canlyniadol i adran etholiadol

3. Mae'r ffin rhwng y rhannau hynny o gymuned Aberhonddu (Ward y Santes Fair) sy'n ffurfio adran etholiadol y Santes Fair, a chymuned Llanfrynach sy'n ffurfio rhan o adran etholiadol Tal-y-bont ar Wysg, fel y mae wedi'i marcio ar y map ffiniau fel "Ffin Gymunedol Newydd", gyda'r canlyniad bod yr ardal o dir a ddangosir gyda llinellau rhesog du ar y map ffiniau, gan gynnwys yr eiddo a elwir "White House", i'w chynnwys yng Nghymuned Llanfrynach yn lle yng Nghymuned Aberhonddu.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol.

Sue Essex
Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

13 Hydref 2004

(**3**) O.S. 1976/246, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol (Diwygio) 1978 O.S. 1978/247.